



Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso mawr i'r cwrs Drama. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i gael dechrau ar y daith hon drwy destunau diddorol gyda chi.

<https://www.cbac.co.uk/media/ftvlfhnc/wjec-gce-drama-and-theatre-spec-from-2016-welsh.pdf>

Yn ystod y cwrs bydd nifer o brofiadau gwahanol a chyfleoedd i:

- ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r modd y mae cyd-destunau testunau perfformio cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol wedi dylanwadu ar ddatblygiad drama a theatr
- ddeall yr arferion sy'n cael eu defnyddio wrth wneud theatr yn yr unfed ganrif ar hugain
- brofi amrywiaeth o gyfleoedd i greu theatr, mewn gwaith sy'n seiliedig ar destunau cyhoeddedig ac mewn gwaith wedi'i ddyfeisio
- gymryd rhan fel gwneuthurwr theatr ac fel aelod o'r gynulleidfa mewn theatr fyw

Gwaith Cychwynnol

<http://theatrbaracaws.com/?lang=en>

Mae Theatr Bara Caws yn un o hoelion wyth theatr yng Nghymru. Defnyddiwch y wefan uchod i gasglu gwybodaeth am y cwmni. Yna, paratowch gyflwyniad powerpoint yn trafod yr hyn rydych wedi ei ddysgu.

<https://www.whatsonstage.com>

Gwylwch un perfformiad theatr gwahanol pob wythnos. Bydd y linc uchod yn eich arwain at nifer enfawr o sioeau sydd am ddim iw 'stream' ar y we.

<https://www.imdb.com>

Defnyddiwch wefan imdb i ddarganfod gwybodaeth am eich hoff actor. Recordiwch eich hun yn cyflwyno'r wybodaeth ar lafar.

Gosod gwaith ymchwil

<https://www.theguardian.com/news/2005/feb/12/guardianobituaries.artsobituaries>

Mae Arthur Miller yn un o Ddramodwyr mwyaf dylanwadol yr 20fed ganrif ac yn rhan bwysig o waith astudio BI.12.

Trwy ymchwilio ar y we, ewch ati i greu proffil o Arthur Miller. Defnyddiwch y linc uchod fel man cychwyn.

Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

Dros Bont Brooklyn – Arthur Miller
ISBN 9780954561307

Death of a Salesman – Arthur Miller
The Cambridge guide to Theatre

Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

Edrychwch ar y gwaith paratoi a wnaethpwyd ar gyfer uned dyfeisio theatr. Pa sgiliau gwnaethoch eu defnyddio i greu cynhyrchiad gwreiddiol o gân Ed Sheeran? Beth oedd cryfderau eich gwaith? Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol yn y dyfodol?

Os nad ydych wedi astudio Drama TGAU, meddyliwch am waith creadigol rydych wedi ei wneud y tu allan i'r ysgol. Pa sgiliau oedd ei angen arnoch? Beth yw eich cryfderau? Pa sgiliau sydd angen i chi ddatblygu ymhellach?

